**CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR**

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 27 Medi, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorydd M. Lewis.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorwyr D. De-Ath (Is-Gadeirydd yn y Gadair).

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr R. Sivagnanam a P. Drake.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr R. Goode (Cadeirydd) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr), a M. Michael (Cyngor Dinas a Sir Caerdydd)

EITEM AGENDA 2 . COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CYNLLUN ARCHWILIO 2023 ARCHWILIO GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR CYMRU (PC/SA151) -

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. TROSOLWG A DIWEDDARIAD AR WASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy 2023/24 a Chynllun Iechyd Porthladdoedd 2023/24.

(3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i’r Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy a’r Cynllun Iechyd Porthladdoedd pe bai'r angen yn codi.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir drefniadau cadarn ar waith i gyflawni ei rwymedigaethau mewn cysylltiad â chlefyd trosglwyddadwy ac iechyd porthladdoedd.

(3) Galluogi gwneud mân newidiadau, pe bai'r angen yn codi, yn ystod oes y Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy a'r Cynllun Iechyd Porthladdoedd, heb fod angen eu dwyn yn ôl i'r Cyd-bwyllgor.

EITEM AGENDA 6. CYNLLUN GWASANAETH GORFODI CYFRAITH BWYD A BWYD ANIFEILIAID Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR 2023-24 (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo’r Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2023/24.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2023/24 pe bai’r angen yn codi.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cynllun yn parhau'n gyfredol pe bai unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu arfer gorau yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod.

EITEM AGENDA 7. ADOLYGIAD O BOLISI CYDYMFFURFIAETH A GORFODAETH Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r Polisi Gorfodi a'r atodiadau wedi'u diweddaru i'w defnyddio gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

(2) Argymell bod y Polisi diwygiedig yn cael ei fabwysiadu gan y Cynghorau priodol ar gyfer y swyddogaethau hynny a gyflawnir gan y Gwasanaeth a Rennir ar eu rhan.

(3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud mân ddiwygiadau gweinyddol a diweddariadau i'r Polisi Cydymffurfio a Gorfodi diwygiedig, ar ôl ei weithredu, pe bai'r angen yn codi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Mae'r penderfyniad i erlyn achosion o dorri deddfwriaeth a orfodir gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn nwylo pob Cyngor ac, o'r herwydd, byddai angen i'r tri awdurdod partner fabwysiadu'r Polisi diwygiedig.

(3) Sicrhau, yn ystod oes y Polisi diwygiedig (h.y. cyn ei adolygiad llawn nesaf), y gellid ymgorffori mân ddiwygiadau a diweddariadau heb yr angen i ofyn am gymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor ar bob achlysur.